

Deddf Cwmniau 1985 a 1989

CWMNI PREIFAT WEDI'I GYFYNGU GAN WARANT

ERTHYGLAU CYMDEITHASU

CWMNI URDD GOBAITH CYMRU
Rhif Elusen: 524481

Dehongliad

1 Yn yr erthyglau yma:

"y Comisiwn"	yn golygu Comisiynwyr Elusen Cymru a Lloegr.
"y Cyfarwyddwyr"	yn golygu cyfarwyddwyr yr Elusen. Mae'r cyfarwyddwyr yn ymddiriedolwyr elusennol yn ôl diffiniad Deddf Elusennau 1993 Rhan 97.
"Cyfeiriad"	yn golygu cyfeiriad post, neu, ar gyfer cyfathrebu electronig, rhif ffacs, cyfeiriad e-bost, neu neges destun, oll yn gofrestredig gyda'r Elusen.
"y Cyngor"	yn golygu aelodau'r Cyngor o dro i dro, a gyfansoddwyd drwy hyn.
"y Deyrnas Gyfunol"	yn golygu Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.
"Dyddiau clir"	mewn perthynas â'r cyfnod o rhybudd yn golygu, gan eithrio'r dydd y mae'r rhybudd yn cael ei rhoi neu y bernir i'w gael ei rhoi; a'r dydd y mae'n cael ei rhoi neu y mae i ddod i fodolaeth.
"y Ddeddf"	yn golygu Deddf Cwmniau 1985.
"yr Elusen"	yn golygu'r cwmni y bwriadwyd ei rheoli gan yr Erthyglau hyn.
"y Memorandwm"	yn golygu Memorandwm Cymdeithasu yr Elusen.
"y Sêl"	yn golygu sêl gyffredinol yr Elusen, (os oes un ganddi).
"Swyddogion"	yn cynnwys y Cyfarwyddwyr a'r ysgrifennydd.
"Ysgrifennydd"	yn golygu ysgrifennydd yr Elusen neu unrhyw berson a benodwyd i gyflawni swyddogaeth

ysgrifennydd yr Elusen, gan gynnwys
ysgrifennydd ar y cyd ysgrifennydd cynorthwyol
neu is-ysgrifennydd.

"yr Urdd"

yn golygu'r corff anghorfforedig a adnabyddir fel
Urdd Gobaith Cymru a phob rhan ohonno.

Mae geiriau sy'n dynodi'r naill ryw yn cynnwys y llall hefyd ac bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir oni bai fo'r cyd-destun yn golygu fel arall.

Onibai bo'r cyd-destun yn nodi fel arall, mae geiriau ac ymadroddion yn yr erthyglau hyn â'r un ystyr a rhoddir iddynt yn y Ddeddf, ond gan eithrio unrhyw amnewidiad statudol nad sydd mewn grym pan ddaw'r cyfansoddiad hwn yn ymrwymedig ar yr Elusen.

Ar wahân i'r eithriad a nodwyd yn y paragraff blaenorol, mae cyfeiriad at Ddeddf Seneddol yn cynnwys unrhyw amnewidiad statudol neu ail-ddeddfu ohoni sydd mewn grym.

Aelodau

- 2 (1) Y tanysgrifwyr i'r Memorandwm, aelodau'r Cyngor a'r cyfryw bobl eraill hynny a dderbynir i'r aelodaeth yn unol â'r Erthygl 2 hwn neu reolau a rheoliadau eraill yr Urdd am y tro mewn grym fydd aelodau'r Elusen, ac a nodir yng nghofrestr aelodaeth yr Elusen.
- (2) Mae aelodaeth hefyd yn agored i unigolion neu endydau eraill sy'n:
 - (a) gwneud cais i'r Elusen yn y ffurf a ddisgwylir gan y Cyngor, ac
 - (b) sy'n cael eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr yn unol â'u disgrisiwn llwyr.
- (3) Ni fydd unrhyw aelod o staff yr Elusen yn cael bod yn aelod.
- (4) Nid yw aelodaeth yn drosglwyddadwy i unrhyw un arall, ac mi fydd yn dod i ben farwolaeth neu ymddiswyddiad.
- (5) Bydd pob aelod yn talu ffi tanysgrifiad blynyddol i fod yn aelod o'r Elusen, ac mae'r ffi hwnnw ar ddyddiad derbyn yr erthyglau hyn yn £1 ac fe fydd y Cyfarwyddwyr â'r hawl gyda chytundeb y Cyngor i amrywio'r ffi a/neu osod canllawiau ar gyfer talu'r ffi fel y gwelant yn ofynnol o dro i dro, neu fel arall, i hepgor talu'r ffi yn unol â'u disgrisiwn.
- (6) Rhaid i'r Cyfarwyddwyr gadw cofrestr o enwau a chyfeiriadau'r aelodau.
- (7) Fe all y bydd unrhyw aelod sy'n methu cadw at unrhyw un o rheolau neu reoliadau'r Elusen o dro i dro mewn grym gael ei wahardd o'r Elusen ar benderfyniad y Cyngor a gariwyd gan bleidleisiau o leiaf 75% o aelodau'r Cyngor sy'n bresennol. Bydd aelod o'r math yma yn cael rhybudd o saith niwrnod clir o gyfarfod y Cyngor, ac fe gaiff fynychu'r cyfarfod, a chymryd rhan yn y trafodaethau fel ag y caniatia'r Cyngor, ond ni chaiff fod yn bresennol pan fo'r bleidlais. Bydd aelod a waherddir o'r Cyngor gan gyfryw gyfarfod â'r hawl o fewn saith niwrnod wedi rhybudd o'i waharddiad apelio penderfyniad y Cyngor i Gyfarfod Cyffredinol o'r Elusen, a gaiff ei alw ar hynny gan y Cyngor.
- (8) Bydd y Cyfarfod Cyffredinol a gyfeiriwyd ato yn erthygl 7 â'r pŵer drwy bleidleisiau

dim llai na 75% o'r aelodau sy'n bresennol i ddileu'r gwaharddiad, neu i'w ddileu yn amodol ar gyflawni unrhyw amodau y mae'r cyfarfod o'r farn y dylid eu trethu.

Categoriâu Aelodaeth

- 3
- (1) Gall y Cyfarwyddwyr sefydlu categorïau aelodaeth gydag hawliau a dyletswyddau gwahanol ac fe fyddant yn recordio'r hawliau a'r dyletswyddau yng nghofrestr yr aelodau.
 - (2) Ni fydd y Cyfarwyddwyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn newid yr hawliau neu'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chategori aelodaeth.
 - (3) Gellid amrywio'r hawliau sy'n atodol at gategori aelodaeth dim ond os:
 - (a) yw tri chwarter aelodau'r categori hwnnw yn cydsynio i'r amrywiad mewn ysgrifen; neu
 - (b) os yw aelodau'r categori hwnnw sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol arwahan yn cytuno i'r amrywiad drwy gydraniad arbennig.
 - (4) Mae'r darpariaethau yn yr erthyglau hyn am gyfarfodydd cyffredinol yn berthnasol i unrhyw gyfarfodydd sy'n ymwneud ag amrywiadau i hawliau unrhyw gategori o aelodau.

Cyfarfodydd Cyffredinol

- 4
- (1) Rhaid i'r Elusen gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ymhob blwyddyn ac ni all mwy na 15 mis fynd heibio rhwng cyfarfodydd cyffredinol blynyddol, gyda'r cyfryw gyfarfodydd i'w cynnal ar amser ac mewn lleoliad a ddyfarnir gan y Cyngor.
 - (2) Fe elwir pob cyfarfod cyffredinol ar wahân i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol yn gyfarfodydd cyffredinol arbennig.
- 5
- Fe all y Cyngor alw cyfarfod cyffredinol arbennig unrhyw amser, ac bydd cyfarfod o'i fath yn cael ei gynnal yn y modd a nodir yn y Ddeddf.

Rhybudd o Gyfarfodydd Cyffredinol

- 6
- (1) Y cyfnodau byrraf o rhybudd sy'n ofynnol er mwyn cynnal cyfarfod cyffredinol o'r Elusen yw:
 - (a) 21 diwrnod clir ar gyfer cyfarfod cyffredinol blynyddol, ac ar gyfer cyfarfod cyffredinol arbennig ar gyfer cymeradwyo cydraniad arbennig; a
 - (c) 14 diwrnod clir ar gyfer pob math arall o gyfarfodydd cyffredinol arbennig.
 - (2) Fe all cyfarfod cyffredinol gael ei alw gyda rhybudd byrrach, os cytunir:
 - (a) yn achos cyfarfod cyffredinol blynyddol, gan bob aelod sy'n gymwys i fynychu ac i bleidleisio; a
 - (b) yn achos cyfarfod cyffredinol arbennig, gan y mwyafrif mewn nifre o'r aelodau sy'n gymwys i fynychu ac i bleidleisio yn y cyfarfod, sydd gyda'i gilydd yn dim llai na 75% o gyfanswm yr hawliau pleidleisio.

- (3) Rhaid i'r rhybudd nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod, a natur cyffredinol y busnes sydd i'w drafod. Os yw'r cyfarfod yn gyfarfod cyffredinol blynyddol, dylai'r hysbysiad nodi hyn.
 - (4) Bydd y rhybudd yn cael ei rhoi i'r holl aelodau, i'r Cyfarwyddwyr ac i'r archwilwyr.
- 7 Ni fydd trafodaethau cyfarfod yn cael eu hannilysu oherwydd fod person a oedd yn gymwys i dderbyn rhybudd heb ei dderbyn o ganlyniad i esgeulustra damweiniol ar ran yr Elusen.

Trefn Cyfarfodydd Cyffredinol

- 8
- (1) Ni fydd unrhyw fusnes yn digwydd mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni bai fod cworwm yn bresennol.
 - (2) Cworwm ydy:
 - (a) 10 aelod sy'n gymwys i bleidleisio ar y busnes i'w drafod yn y cyfarfod; neu
 - (b) un rhan o ddeg o gyfanswm yr aelodaeth ar y prydp'run bynnag sydd fwyaf.
 - (3) Bydd aelod awdudordedig sy'n bresennol ar ran sefydliad yn cael ei gyfrif yn y cworwm.
- 9
- (1) Os:
 - (a) nad oes cworwm yn bresennol o fewn hanner awr i'r amser a benodwyd ar gyfer y cyfarfod; neu
 - (b) yn ystod cyfarfod, mae cworwm yn peidio bodolibydd y cyfarfod yn cael ei ohirio i ddyddiad ac amser i'w benodi gan y Cyfarwyddwyr.
 - (2) Rhaid i'r Cyfarwyddwyr ail-alw'r cyfarfod a rhoi rhybudd o o leiaf saith niwrnod clir o'r ail-gyfarfod, gan nodi dyddiad amser a lleoliad y cyfarfod.
 - (3) Os nad oes cworwm yn bresennol yn yr ail-gyfarfod o fewn pymtheg munud i'r amser a ddynodwyd ar gyfer dechrau'r cyfarfod yr aelodau sy'n bresennol fydd cworwm y cyfarfod hwnnw.
- 10
- (1) Llywydd yr Elusen, neu yn ei absenoldeb, Cadeirydd y Cyngor fydd y Cadeirydd ymhob cyfarfod cyffredinol o'r Elusen. Os nad oes Llywydd neu Gadeirydd, neu os nad yw'r Llywydd na Cadeirydd y Cyngor yn bresennol adeg cynnal y cyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn dewis un o'u plith i Gadeirio'r cyfarfod.
 - (2) Gall y Cadeirydd, gyda chaniatâd y cyfarfod ohirio unrhyw gyfarfod o dro i dro ac o le i le, ond ni all unrhyw fusnes gael ei drafod mewn cyfarfod gohiriedig arwahân i'r busnes na orffenwyd yn y cyfarfod a ohiriwyd.
- 11
- (1) Bydd unrhyw bleidlais mewn cyfarfod i'w benderfynu drwy godi dwylo, oni bai, cyn neu ar ddatganiad canlyniad y codi dwylo, fe fyynnir pŵl:
 - (a) gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod; neu

- (b) gan o leiaf ddau aelod sydd â'r hawl i bleidleisio yn y cyfarfod; neu
 - (c) gan aelod neu aelodau sy'n cynrychioli heb fod yn llai nac un rhan o ddeg o gyfanswm hawliau pleidleisio'r holl aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio yn y cyfarfod.
- (2) (a) Bydd datganiad y person sy'n cadeirio'r cyfarfod yn derfynol, oni bai fod pŵl yn cael ei fynnu.
 - (b) Rhaid i ganlyniad y bleidlais gael ei recordio yng nghofnodion yr Elusen, ond nid oes rhaid i nifer y pleidleisiau, neu gyfran y pleidleisiau a rhoddyd gael eu cofnodi.
- (3) (a) Dim ond gyda chaniatâd y person sydd yn gadeirydd y cyfarfod y gall cais am bŵl gael ei dynnu cyn i'r pŵl ddigwydd.
 - (b) Os yw'r cais am bŵl yn cael ei dynnu nôl, ni fydd y cais yn annilysu canlyniad y codi dwylo a ddatganwyd cyn i'r cais gael ei wneud.
- (4) (a) Cymerir pŵl yn unol â threfn y person sy'n cadeirio'r cyfarfod ac a fydd â'r hawl i benodi archwilyr (nad oes rhaid iddynt fod yn aelodau) ac a all nodi amser a lleoliad i ddatgan canlyniadau'r pŵl.
 - (b) Bernir mai canlyniad y pŵl fydd cydraniad y cyfarfod ble mynnwyd y pŵl.
- (5) Mewn achos ble bo pleidlais yn gyfartal, bydd y Cadeirydd yn, ar godi dwylo ac ar bŵl yn cael pleidlais ychwanegol i'w bleidlais fel aelod.

Pleidleisiau'r Aelodau

- 12 (1) Bydd gan pob aelod, p'un ai'n unigolyn neu'n sefydliad, un bleidlais.
 - (2) Ni fydd gan aelod yr hawl i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol, neu mewn unrhyw gyfarfod a ohiriwyd os nad yw e neu hi wedi talu ffi tanysgrifio blynyddol yr Elusen sy'n daladwy yn unol â Erthygl 2(5) neu os yw fel arall mewn dyled i'r Elusen.
- 13 Dylai unrhyw wrthwynebiad i ddilysrwydd pleidleisiwr gael ei nodi yn y cyfarfod lle y mae'r bleidlais sydd yn cael ei gwrthwynebu yn cael ei bwrw ac mae penderfyniad y person sy'n cadeirio'r cyfarfod yn derfynol.
- 14 (1) Gall unrhyw sefydliad sy'n aelod o'r Elusen enwebu unrhyw berson i'w gynrychioli mewn unrhyw un o gyfarfodydd yr Elusen.
 - (2) Rhaid i'r sefydliad rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Elusen o enw ei gynrychiolydd. Ni fydd hawl gan yr hwnnw a enwebir i gynrychioli'r sefydliad mewn unrhyw gyfarfod oni bai fod y rhybudd wedi ei dderbyn gan yr Elusen. Gall yr hwnnw a enwebir barhau i gynrychioli'r sefydliad perthnasol hyd nes y derbynir rhybudd ysgrifenedig i'r gwrthwyneb gan yr Elusen.
 - (3) Bydd unrhyw rybudd a rhoddir i'r Elusen yn dystiolaeth derfynol fod yr enwebi yn gymwys i gynrychioli'r sefydliad neu fod ei awdurdod ef neu hi wedi ei wyrdroi. Ni fydd yn rhaid i'r Elusen ystyried os ydi'r enwebi wedi ei ddewis yn gywir gan y sefydliad.

Cyfarwyddwyr

- 15** Rhaid i Gyfarwyddwr fod yn berson naturiol dros 18 mlwydd oed neu'n hyn.
- 16** Ni fydd nifer y Cyfarwyddwyr yn llai na thri ond (oni nodi'r fel arall gan gydraniad arferol) ni fydd uchafswm.
- 17** Ni all Gyfarwyddwr benodi cyfarwyddwyr yn ei le neu unrhyw berson arall i weithredu ar ei rhan neu ei ran yng nghyfarfodydd y Cyfarwyddwyr.

Pwerau'r Cyfarwyddwyr

- 18** (1) Bydd y Cyfarwyddwyr yn rheoli busnes yr Elusen a gweithredu holl bwerau'r Elusen oni bai bod cyfyngiadau yn y Ddeddf, y Memorandwm, yr erthyglau hyn neu unrhyw gydraniad arbennig yn eu rhwystro, ac fe all y Cyfarwyddwyr ddirprwyo rheolaeth y busnes ac ymarfer y cyfryw bwera fel y meant yn ei gweld yn addas o dro i dro yn unol âg Erthygl 34 .
- (2) Ni fydd unrhyw newid i'r Memorandwm neu'r Erthyglau yma neu unrhyw gydraniad arbennig yn cael effaith ôl weithredol i annilysu unrhyw weithred flaenorol gan y Cyfarwyddwr.
- (3) Bydd unrhyw gyfarfod o Gyfarwyddwyr lle mae cworwm yn bresennol ar yr adeg y mae penderfyniad perthnasol yn cael ei wneud yn cael gweithredu'r holl bwerau sy'n weithredol gan y Cyfarwyddwyr.

Ymddeoliad

- 19** Bydd y darpariaethau yn yr Erthyglau hyn mewn perthynas ag ymddeoliad Cyfarwyddwyr ddim yn berthnasol i'r Cyfarwyddwyr anrhydeddus a gyfeirir atynt yn Erthygl 26, a fydd dim ond yn cael eu gwahardd o weithredu fel Cyfarwyddwyr neu symud o'u swyddi yn unol ag Erthygl 27. Yn achos y Cyfarwyddwr neu Gyfarwyddwyr eraill, bydd darpariaethau gweddill yr Erthyglau hyn yn berthnasol mewn cysylltiad a'u hymddeoliad neu'u apwyntiad. Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol, bydd traean o'r Cyfarwyddwyr (heblaw'r Cyfarwyddwyr Anrhydeddus) neu, os nad yw eu rhif yn 3, neu'n luosog o 3, bydd yr agosaf at drean yn ymddeol o'r swydd. Os mai un Cyfarwyddwr yn unig sydd, rhaid iddo neu iddi ymddeol.
- 20** (1) Y Cyfarwyddwyr i ymddeol wrth gylchdroi yw'r rheini sydd wedi bod yn y swydd hiraf ers eu penodiad diwethaf. Os daeth unrhyw Gyfarwyddwr i'r swydd, neu os cawsant eu hapwyntio yn Gyfarwyddwyr ar yr un diwrnod, bydd y rheiny sydd i ymddeol yn cael (oni bai iddynt gytuno ymysg ei gilydd) eu dewis drwy lot.
- (2) Os yw'n ofynnol i Gyfarwyddwr ymddeol mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol drwy ddarpariaeth o'r erthyglau yma, mi fydd yr ymddeoliad yn digwydd ar derfyniad y cyfarfod.
- (3) Os yw'r Elusen, yn y cyfarfod ble mae Cyfarwyddwr (heblaw am Gyfarwyddwr Anrhydeddus) yn ymddeol wrth gylchdroi ddim yn llenwi'r swydd, gall y Cyfarwyddwr sy'n ymddeol, os ydyw'n hapus i wneud, gael ei ail-apwyntio oni bai bod cydraniad ar gyfer ail-apwyntio yn cael ei rhoi ger bron y cyfarfod ac yn cael ei golli.

Apwyntio Cyfarwyddwyr

- 21** Gall yr Elusen, drwy gydraniad cyffredinol:
- (a) apwyntio person sy'n fodlon gweithredu, i fod yn Gyfarwyddwr; a
 - (b) benderfynu cylchdroad ymddeoliad unrhyw Gyfarwyddwyr ychwanegol.
- 22** Ni fydd unrhyw berson ar wahân i Gyfarwyddwr sy'n ymddeol drwy gylchdroad gael ei apwyntio neu'i ail-apwyntio yn Gyfarwyddwr mewn cyfarfod cyffredinol oni bai fod:
- (1) ef neu hi wedi ei argymhell ar gyfer ailetholiad gan y Cyfarwyddwr; neu
 - (2) dim llai na pedair ar ddeg neu mwy na thri deg pum dydd clir cyn dyddiad y cyfarfod, mae'r Elusen yn derbyn rhybudd:
 - (a) wedi ei arwyddo gan aelod sy'n gymwys i bleidleisio yn y cyfarfod;
 - (b) yn nodi bwriad yr aelod i argymhell apwyntiad person fel Cyfarwyddwr;
 - (c) yn cynnwys y manylion hynny am berson, pe byddai'r person hwnnw yn cael ei ethol, yn rhaid i'r Elusen ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau; ac
 - (ch) wedi ei arwyddo gan y person sydd yn mynd i gael ei gynnig i ddangos ei barodrwydd i gael ei apwyntio.
- 23** Rhoddir nid llai na saith ac nid mwy na dau ddeg wyth dydd clir o rybudd o unrhyw gydraniad i'w rhoi gerbron y cyfarfod i apwyntio Cyfarwyddwr ar wahân i Gyfarwyddwyr sydd yn ymddeol wrth gylchdroi i bob aelod sydd yn gymwys i dderbyn rhybudd o'r fath.
- 24** (1) Fe all y Cyfarwyddwyr benodi person sydd yn fodlon gweithredu, fel Cyfarwyddwr.
- (2) Rhaid i Gyfarwyddwr sy'n cael ei apwyntio drwy gydraniad Cyfarwyddwyr eraill ymddeol adeg y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf, ac ni chaiff ei ystyried wrth benderfynu pa Gyfarwyddwyr sydd i ymddeol wrth gylchdroi.
- 25** Ni ddylai apwyntiad Cyfarwyddwr, p'r un ai gan yr Elusen, mewn cyfarfod cyffredinol, neu gan Gyfarwyddwyr eraill, achosi nifer y Cyfarwyddwyr i fod yn fwy nag unrhyw rif a osodwyd fel uchafswm y nifer o Gyfarwyddwyr.
- 26** Y tri Cyfarwyddwr sy'n dilyn fydd Cyfarwyddwyr anrhydeddus yr Elusen am oes, yn amodol yn unig ar Erthygl 27(1) i (5) isod:
- (1) Ifan Prys Edwards;
 - (2) Robert Roberts; a
 - (3) Wynne Melville Jones.

Gwahardd a Disodli Cyfarwyddwyr

- 27** Bydd Cyfarwyddwr yn peidio a dal ei swydd os bydd ef neu hi yn:
- (1) peidio bod yn Gyfarwyddwr o ganlyniad i unrhywbeth yn y Ddeddf neu yn cael ei wahardd yn ôl y gyfraith rhag bod yn Gyfarwyddwr;

- (2) yn cael ei wahardd rhag gweithredu fel Cyfarwyddwr o ganlyniad i Rhan 72 o Ddeddf Elusennau 1993 (neu unrhyw ddeddf neu ail-ddeddfu neu newid I'r Rhan hon o'r ddeddf);
- (3) yn peidio a bod yn aelod o'r Elusen;
- (4) yn methu o ganlyniad i salwch meddwl, salwch neu anaf i reoli a gweinyddu ei faterion personol;
- (5) yn ymddeol fel Cyfarwyddwr drwy rhybudd i'r Elusen (ond dim ond os bydd o leiaf dau Gyfarwyddwr yn parhau yn eu swyddi pan fo rhybudd yr ymddiswyddo yn dod i rym); neu
- (6) yn absennol heb ganiatâd y Cyfarwyddwyr o'u holl gyfarfodydd o fewn cyfnod o chwe mis yn olynol ac mae'r Cyfarwyddwyr yn barnu fod ei swydd ef neu hi i'w wacáu.

Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr

- 28** Ni ddylai'r Cyfarwyddwyr gael eu talu unrhyw gydnabyddiaeth oni bai ei fod yn cael ei ganiatáu gan Rhan 5 y Memorandwm.

Rheolaeth y Cyfarwyddwyr

- 29**
- (1) Gall y Cyfarwyddwyr rheoli eu trafodaethau mewn modd y maent yn o'r farn sy'n addas, gan ystyried darpariaethau'r erthyglau.
 - (2) Gall unrhyw Gyfarwyddwr alw cyfarfod Gyfarwyddwyr.
 - (3) Rhaid i'r ysgrifennydd alw cyfarfod o'r Cyfarwyddwyr os gwnaed cais iddo gan Gyfarwyddwr i wneud hynny.
 - (4) Rhaid ateb unrhyw gwestiynau a godir mewn cyfarfod gyda mwyafrif o bleidleisiau.
 - (5) Pan fo nifer y pleidleisiau yn gyfartal, bydd gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod ail bleidlais.
- 30**
- (1) Ni all unrhyw benderfyniad gael ei wneud mewn cyfarfod y Cyfarwyddwyr oni bai fod cworwm yn bresennol ar yr adeg y gwneir penderfyniad.
 - (2) Rhif y cworwm bydd dau neu'r nifer agosaf at un rhan o dri o gyfanswm y Cyfarwyddwyr, p'run bynnag sydd fwyaf, neu rif yn fwy o'r fath a all gael ei benderfynu o dro i dro gan y Cyfarwyddwyr.
 - (3) Ni fydd Cyfarwyddwr yn cael ei gyfrif mewn cworwm sy'n bresennol pan fod unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud ar fater nad oes gan y Cyfarwyddwr hwnnw hawl i bleidleisio yn ei gylch.
- 31** Os yw rhif y Cyfarwyddwyr yn llai na'r rhif a benodwyd fel y cworwm, mi fydd y Cyfarwyddwyr neu Gyfarwyddwr sydd ar ôl dim yn cael gweithredu er mwyn llenwi gwagleoedd neu alw cyfarfod cyffredinol.
- 32**
- (1) Gall y Cyfarwyddwyr apwyntio Cyfarwyddwr i gadeirio eu cyfarfodydd, ac fe allant, ar unrhyw adeg ddileu'r apwyntiad.

- (2) Os nad oes unrhyw un wedi ei apwyntio i gadeirio cyfarfodydd y Cyfarwyddwyr neu os nad yw'r person a apwyntiwyd yn fodlon arwain neu os nad ydyw'n bresennol o fewn deng munud wedi'r amser a benodwyd ar gyfer y cyfarfod, fe all un o'r Cyfarwyddwyr sy'n bresennol apwyntio un o'u nifer i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.
 - (3) Ni fydd gan y person a apwyntiwyd i gadeirio cyfarfodydd y Cyfarwyddwyr unrhyw hawliau neu bwerau ar wahân i'r rheiny a rhoddwyd gan yr erthyglau yma neu a ddirprwywyd iddo ef neu hi gan y Cyfarwyddwyr.
- 33**
- (1) Mi fydd cydraniad ysgrifenedig wedi ei arwyddo gan yr holl Gyfarwyddwyr sy'n gymwys i dderbyn rhybudd o gyfarfod o Gyfarwyddwyr neu o bwyllgor o Gyfarwyddwyr ac i bleidleisio ynghylch y cydraniad yr un mor ddilys ac effeithlon a phe bai wedi ei basio mewn cyfarfod y Cyfarwyddwyr neu (os yn berthnasol) bwyllgor o Gyfarwyddwyr wedi ei alw yn ddilys.
 - (2) Fe all fod y cydraniad ysgrifenedig yn cynnwys sawl dogfen yn cynnwys testun y cydraniad, mewn dull tebyg, a phob un wedi ei arwyddo gan un neu fwy o'r Cyfarwyddwyr.

Dirprwyaeth

- 34**
- (1) Gall y Cyfarwyddwyr ddirprwyo eu pwerau a'u gweithredredd i'r Cyngor i'r graddau a nodir yn Erthyglau 43 a 44 (ac i unrhyw raddau eraill y caniatwyd gan y Cyfarwyddwyr o bryd i'w gilydd) neu unrhyw bwyllgor o ddau neu fwy o Gyfarwyddwyr ond fe ddylai telerau'r ddirprwyaeth gael ei nodi yn y llyfr cofnodion.
 - (2) Rhaid i'r Cyfarwyddwyr osod telerau wrth ddirprwyo, gan gynnwys y telerau y mae'r pwerau perthnasol i'w cael eu defnyddio yn egsgliwsif gan y Cyngor neu bwyllgor y maent yn dirprwyo iddo.
 - (3) Gall y Cyfarwyddwyr ddileu neu newid dirprwyaeth ar ba bynnag bryd y gwêl yn bwrpasol.
 - (4) Rhaid i bob un o weithrediadau'r Cyngor neu unrhyw bwyllgorau gael eu hadrodd yn ôl yn llawn ac yn brydlon i'r Cyfarwyddwyr.
- 35**
- Rhaid i Gyfarwyddwr esgusodi ei hun o unrhyw drafodaethau'r Cyfarwyddwyr lle mae'n bosib y bydd gwrthdaro diddordeb yn digwydd rhwng ei ddyletswydd neu ei dyletswydd i weithredu yn unig er lles yr Elusen ac unrhyw ddiddordeb personol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddiddordebau ariannol).
- 36**
- (1) Yn amodol ar erthygl 36(2), bydd yr holl weithredoedd a gyflawnwyd gan gyfarfod Cyfarwyddwyr, y Cyngor neu bwyllgor o Gyfarwyddwyr yn ddilys, er bod pleidlais wedi ei daro gan unrhyw Gyfarwyddwr sydd:
 - (a) wedi ei wahardd rhag dal swydd;
 - (b) eisoes wedi ymddeol neu a ddylai fod, yn ôl y cyfansoddiad wedi gadael ei swydd;
 - (c) heb yr hawl i bleidleisio ar y mater, p'un ai ganlyniad i wrthdaro diddordeb neu fel arall;

os heb:

- (ch) bleidlais y Cyfarwyddwr hwnnw; a'r
- (d) Cyfarwyddwr hwnnw yn cael ei gyfrif yn y cworwm;

mae'r penderfyniad wedi ei wneud gan fwyafrif y Cyfarwyddwyr mewn cyfarod â cworwm.

- (2) Nid yw erthygl 36(1) yn caniatáu i Gyfarwyddwr gadw unrhyw fuddiannau a rhoddwyd iddo gan gydraniad o'r Cyfarwyddwyr neu o'r Cyngor, neu bwyllgor o'r Cyfarwyddwyr os, oni bai am erthygl 36(1), byddai'r cydraniad wedi bod yn annilys, neu os nad yw'r Cyfarwyddwr wedi cydymffurfio ag Erthygl 35.

Cofnodion

37 Rhaid i'r Cyfarwyddwyr gadw cofnodion o:

- (1) apwyntiadau o swyddogion a wnaed gan y Cyfarwyddwyr;
- (2) gyfarfodydd y Cyfarwyddwyr a phwyllgorau Cyfarwyddwyr gan gynnwys:
 - (a) enwau'r Cyfarwyddwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod;
 - (b) y penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfodydd; ac
 - (c) lle bo'n briodol, y rhesymau am y penderfyniadau.

Cyfrifon

- 38** (1) Rhaid i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol yn ôl gofynion Rhan 226 (neu, os yn berthnasol, Rhan 227) o'r Ddeddf. Rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi i ddangos darlun teg a chywir a dilyn safonau cyfrifo y Bwrdd Safonau Cyfrifon, neu eu holynwyr a glynu at argymhellion Datganiadau o Ymarfer Awgrymedig.
- (2) Rhaid i'r Cyfarwyddwyr gadw cofnodion cyfrifon yn ôl gofynion Rhan 221 a 222 y Ddeddf, ac fe gedwir cofnodion o'u math yn swyddfa gofrestredig yr Elusen neu mewn man arall i'w benodi gan y Cyfarwyddwyr, ac ar gael o hyd, i'w gweld gan aelodau'r Cyngor yn ystod oriau gwaith cyffredin yr Elusen.
- (3) O leiaf unwaith yn flynyddol, bydd y Cyngor yn cyflwyno adroddiad gerbron yr Elusen mewn cyfarfod cyffredinol sy'n nodi stad weithredol yr Elusen, yn ogystal â chyfrif gwariant ac incwm am y flwyddyn gynt. Dylai mantolen gael ei llunio yn flynyddol ar yr un dyddiad â'r cyfrif gwariant ac incwm a'i osod gerbron yr Elusen mewn cyfarfod cyffredinol.
- (4) Mi fydd copi o'r datganiad a'r fantolen ar gael i'w harchwilio yn Swyddfa Gofrestredig yr Elusen gan bob aelod o leiaf saith diwrnod cyn y Cyfarfod Cyffredinol, ac, ar gais yn cael ei ddanfôn ato.

Adroddiad blynyddol a return a chofrestru elusennau

- 39** (1) Rhaid i'r Cyfarwyddwyr gydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 1993 wrth ystyried:

- (a) danfon mantolenni cyfrifon i'r Elusen;
 - (b) paratoi adroddiad blynyddol a'i ddanfôn i'r Comisiwn; a
 - (c) paratoi return blynyddol a'i ddanfôn i'r Comisiwn.
- (2) Rhaid i'r Cyfarwyddwyr hysbysu'r Comisiwn ar unwaith o unrhyw newidiadau i gofnod yr Elusen ar Rhestr Ganolog yr Elusennau.

Cyngor

40 Bydd y Cyngor yn cynnwys pobl sy'n aelodau o'r Elusen ac fe'i hapwyntir yn y modd y cyfeirir ato isod, ac mi fydd pob person o'r fath yn, ar wahân i lle y darparwyd eisoes, gwasanaethu hyd fod tair blynedd wedi'r cyfnod y cawsant eu hapwyntio yn dod i ben, neu hyd eu bod yn peidio a bod yn aelod o'r Elusen p'run bynnag sy'n digwydd gyntaf.

- (a) Swyddogion yr Elusen a apwyntiwyd y unol â Erthygl 49;
- (b) Cyn-swyddogion yr Elusen a wasanaethir am dair blynedd wedi diwedd eu cyfnod yn ei swydd;
- (c) chwe pherson wedi eu hapwyntio gan bob un o bwyllgorau rhanbarthol yr Urdd, a bydd tri ohonynt yn iau na 30 mlwydd oed;
- (ch) Dim mwy na phump o aelodau'r Elusen a apwyntiwyd gan yr aelodau yn y cyfarfod cyffredinol; ac
- (d) Aelodau eraill tebyg i'r Elusen heb fod yn fwy na 10 mewn nifer a etholir gan y Cyngor.

41 Bydd gan y Cyngor y pŵer i lenwi swyddi rhan-amser ymhlith ei swyddogion neu'r aelodau hynny o'r Cyngor a etholwyd yn unol â Erthygl 40(ch) a 40(d), ond bydd unrhyw berson a apwyntir yn y modd hwn yn aelod o'r Elusen ac yn dal ei swydd dim ond am y cyfnod o amser y byddai'r swyddog neu'r aelod yr apwyntiwyd yn ei le wedi dal y swydd pe na fyddai'r swydd wag wedi ymddangos.

42 (1) Bydd swydd aelod o'r Cyngor yn dod yn wag:-

- (a) Os bydd gorchymyn derbyn yn cael ei wneud yn ei erbyn neu os yw'n gwneud trefniant gyda'i gredydwy'r;
- (b) Os, yn nhyb y Cyngor nad ydyw o'i iawn bwyll;
- (c) Os, drwy rhybudd ysgrifenedig i'r Elusen mae'n ymddeol o'i swydd;
- (d) Os, am unrhyw reswm, y mae'n peidio a bod yn aelod o'r Cyngor;
- (e) Os daw yn aelod o'r staff.

Swyddogaethau a Phwerau'r Cyngor

43 Heblaw am fel y'i cedwir i'r Cyfarwyddwyr, neu fel y'i nodir yn yr erthyglau hyn, ac yn amodol ar awdurdod yr Elusen mewn cyfarfod cyffredinol, bydd gan y Cyngor rheolaeth absoliwt dros faterion ac eiddo'r Elusen.

- 44 Yn ogystal â'r holl bwerau a rhoddir yn benodol iddynt ac heb dynnu oddiar y pwerau yn gyffredinol a rhoddir iddynt gan yr erthygl blaenorol neu unrhyw erthygl arall, bydd gan y Cyngor y pwerau canlynol sef:-
- (a) I wario arian yr Elusen mewn modd y maent o'r farn sydd o fudd mwyaf i bwrpas yr Elusen, ac i fuddsoddi yn enw'r Elusen neu yn enwau'r Cyfarwyddwyr y cyfryw rhan hynny y meant o'r farn sy'n addas ac i gyfarwyddo gwerthiant neu drawsgludiant unrhyw fuddsoddiadau o'r fath i wario'r elw o'r cyfryw werthiant er budd yr Elusen.
 - (b) I gaffael, yn enw'r Elusen, neu yn enwau Cyfarwyddwyr, adeiladu ar, dymchwel, ail-adeiladu, ychwanegu at, trwsio, gwella, gwerthu neu gael gwared ar neu fel arall i ddelio gyda mewn modd arall, unrhyw dir neu adeiladau ar gyfer defnydd yr Elusen.
 - (c) I gytuno cytundebau ar ran yr Elusen.
 - (ch) I fenthyg arian gan ddefnyddio unrhyw ran o eiddo'r Elusen fel sicrwydd, ac i rhoi morgaesi a llyffetheirio fel arall eiddo'r Elusen.
 - (d) I wneud rheolau, rheoliadau neu gyfreithiau lleol fel y'i cyfeirir atynt yn erthygl 56, yn amodol ar y cyfyngiadau ac amodau ar ddirprwyo a rhoddwyd ar y Cyngor yn erthygl 34, ac i ddirprwyo yr holl neu unrhyw o'i bwerau i'r cyfryw bwyllgorau o aelodau o'r Elusen y meant yn gweld yn addas ac i wneud rheolau fel y meant yn gweld yn addas i rheoleiddio y pwer, atebolrwydd a phroses pob pwyllgor, ac i apwyntio swyddogion, gweision, aelodau staff, gweithwyr llawrydd, ymgynghorwyr, gweithwyr ran-amser neu weithwyr eraill fel sydd angen ar yr Elusen o dro i dro, gan gynnwys er mwyn osgoi amheuaeth y Prif Weithredwr, ac i derfynu yr holl gyfryw apwyntiadau os oes angen, neu os yn addas, yn amodol ar sêl bendith terfynol y Cyfarwyddwyr.
 - (dd) I wneud, ac o bryd i'w gilydd, i ddiddymu neu addasu rheoliadau yn ymwneud â dyletswyddau unrhyw swyddogion, gweision, aelodau staff, gweithwyr llawrydd, ymgynghorwyr, gweithwyr rhan amser neu weithwyr eraill yr Elusen, ac yn ymwneud â busnes y Cyngor neu unrhyw bwyllgor, ac yn ymwneud â materion neu bethau o fewn pwerau neu o dan reolaeth y Cyngor, ar yr amod na fyddent yn anghyson gyda'r Memorandwm neu'r Erthyglau, ac yn amodol ar sêl bendith y Cyfarwyddwr yn unol ag erthygl 34.
 - (e) I gyflawni pob peth yn gyffredinol sydd yn angenrheidiol, neu'n sy'n hwyluso gweithredu materion yr Elusen nas ddarparwyd ar eu cyfer hyd yn hyn yn y ddogfen hon.
- 45 Gall y Cyngor gwrdd er mwyn trafod busnes, gohirio neu fel arall rheoli mewn modd arall, eu cyfarfodydd fel y gwelir yn hwylus, ond o leiaf unwaith bob blwyddyn, ac fe fydd deg aelod o'r Cyngor yn gworwm. Ar unrhyw adeg, fe all deg aelod, ac ar gais ysgrifenedig, unrhyw ddeg aelod o'r Cyngor fe all yr ysgrifennydd alw cyfarfod o'r Cyngor. Mi fydd rhybudd o bob cyfarfod o'r Cyngor yn nodi manylion cyffredinol yr holl fusnes sydd i'w drafod mewn cyfarfod o'r fath yn cael ei ddanfôn yn y post at bob aelod o'r Cyngor o leiaf saith niwrnod cyn cyfarfod oni bai fod amgylchiadau o argyfwng yn gofyn bod rhybudd byrrach yn cael ei rhoi, ond ni fydd penderfyniadau unrhyw gyfarfod yn cael eu hannilysu gan unrhyw ddiffyg ar rhybudd o gyfarfod neu os trafodir busnes nad oedd wedi ei gynnwys mewn rhybudd o'r cyfarfod.
- 46 Bydd pob cwestiwn i'w benderfynu gan bleidleisiau mwyafrif aelodau'r Cyngor sydd yn bresennol ac sydd yn pleidleiso mewn cyfarfod o'r Cyngor.
- 47 Bydd y Cyngor yn cadw llyfrau cofnodion o drafodaethau cyfarfodydd cyffredinol yr Elusen a chyfarfodydd y Cyngor, ac yn peri i bob penderfyniad a bleidleisiwyd, a chanlyniad y

pleidleisiau i gael eu cofnodi.

- 48** Bydd bancwyr yn cael eu hapwyntio ac fe allant gael eu newid gan y Cyngor, ac mi fydd sieciau yn cael eu harwyddo gan aelodau o staff yr Urdd sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor.

Swyddogion

- 49** Bydd yr Elusen mewn Cyfarfod Cyffredinol o dro i dro yn apwyntio o blith ei aelodau, y swyddogion canlynol, sef, Llywydd, Is-Lywyddion, Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd, Cwnsler Anrhydeddus a Chyfreithiwr Anrhydeddus a fyddant yn ogystal yn swyddogion y Cyngor, a chyfnod apwyntiad y personau a apwyntiwyd fydd tair blynedd.

Rhybuddion a Chyfarfodydd

- 50** Bydd unrhyw rhybudd i'w rhoi neu a rhoddir gan unrhyw berson yn unol â'r Erthyglau
- (1) mewn ysgrifen; neu
 - (2) wedi eu rhoi drwy gyfathrebiad electronig.
- 51** (1) Gall yr Elusen rhoi hysbysiad i aelod naill ai:
- (a) yn bersonol; neu
 - (b) drwy ei ddanfôn yn y post mewn amlen flaendâl a gyfeiriwyd at yr aelod yn ei gyfeiriad neu ei chyfeiriad; neu
 - (c) drwy ei adael yng nghyfeiriad yr aelod; neu
 - (d) drwy ei rhoi drwy gyfathrebiad electronig, i gyfeiriad yr aelod.
- (2) Ni fydd aelod nad sydd wedi cofrestru cyfeiriad gyda'r Elusen, neu sy'n cofrestru cyfeiriad post tu allan i'r Deyrnas Unedig yr hawl i dderbyn unrhyw rhybudd gan yr Elusen.
- 52** Bernir fod unrhyw aelod sydd yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Elusen wedi derbyn hysbysiad o'r cyfarfod a'r rheswm am alw'r cyfarfod.
- 53** (1) Bydd prawf fod amlen yn cynnwys rhybudd wedi ei gyfeirio'n iawn, wedi ei dalu o flaen llaw a'i bostio yn gywir, yn dystiolaeth ddigonol fod rhybudd wedi ei rhoi.
- (2) Bydd prawf fod rhybudd wedi ei gynnwys mewn cyfathrebiad electronig a ddanfônwyd yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Siartredig yn dystiolaeth ddigonol fod rhybudd wedi ei rhoi.
- (3) Bernir fod rhybudd wedi ei rhoi:
- (a) 48 awr wedi i'r amlen yn cynnwys y rhybudd gael ei bostio; neu
 - (b) gyda chyfathrebiad electronig, 48 awr wedi iddo gael ei ddanfôn.
- 54** Gall unrhyw Gyfarwyddwr neu unrhyw aelod o'r Cyngor gymryd rhan mewn cyfarfod o'r Cyfarwyddwyr neu bwyllgor o'r Cyfarwyddwyr neu gyfarfod o'r Cyngor drwy gyfrwng ffôn gynhadledda, neu gynhadledd fideo neu gyfarpar cyfathrebu tebyg lle y gall bob person sydd

yn cyfranogi yn y cyfarfod glywed ei gilydd, a bernir fod cyfranogi mewn cyfarfod yn y modd hwn yn cyfateb i fod yn bresennol ac, yn amodol ar yr erthyglau a'r Ddeddf, bydd ganddo'r i bleidleisio a chael ei gyfrif mewn cworwm. Bernir fod cyfarfod o'r fath yn cymryd lle, yn y man ble bo'r casgliad mwyaf o'r rheini sydd yn cyfrannu wedi ymgasglu, neu, os nad oes grŵp o'r math yn bodoli, yn y lleoliad ble bo Cadeirydd y cyfarfod.

Indemniad

55 Bydd yr Elusen yn imdemnio pob Cyfarwyddwr neu swyddog arall neu archwiliwr o'r Elusen yn erbyn unrhyw rwymedigaeth a achoswyd ganddo neu ganddi yn y cyfryw rôl berthnasol wrth amddiffyn unrhyw achosion, unai sifil neu droseddol, bel bo dyfarniad o blaid y Cyfarwyddwr neu pan fo'r Cyfarwyddwr yn cael ei ddiheuro neu mewn cysylltiad ag unrhyw gais y mae rhyddhad yn cael ei ganiatau i'r Cyfarwyddwr gan y llys o rwymedigaeth esgeulustod, methiant, diffygion mewn dyletswyddau neu ddiffyg ymddiriedaeth mewn perthynas â materion yr Elusen.

Rheolau

- 56**
- (1) Gall y Gyfarwyddwyr, o dro i dro lunio rheolau rhesymol a chywir neu is-ddeddfau y maent yn tybio sy'n addas neu sydd eu hangen neu sy'n addas, angenrheidiol neu'n hwylus ar gyfer arwain a rheoli'r Elusen yn briodol, ac hefyd o dro i dro fel y gwelant yn addas, ddirprwyo creu'r rheolau neu rheoliadau i'r Cyngor yn unol ag erthygl 34.
 - (2) Gall yr is-ddeddfau rheoli'r materion canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
 - (a) derbyniad aelodau i'r Elusen (gan gynnwys derbyniad mudiadau i aelodaeth) a hawliau a breintiau aelodau o'r fath, a ffioedd mynediad, tanysgrifiadau a ffioedd a thaliadau eraill gan aelodau;
 - (b) ymddygiad aelodau'r Elusen mewn perthynas â'i gilydd, ac i wirfoddolwyr a chyflogedigion yr Elusen;
 - (c) gosod rhan o neu rannau o, neu adeilad cyfan yr Elusen i'r neilltu ar unrhyw amser neu amserau ar gyfer unrhyw bwrpas neu bwrpasau;
 - (ch) trefniadau cyfarfodydd cyffredinol a chyfarfodydd y Cyfarwyddwyr, oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu rheoli gan y Ddeddf neu gan yr Erthyglau ; ac
 - (d) yn gyffredinol, pob mater o'r fath sy'n destun rheolau cwmni.
 - (3) Mae gan yr Elusen yr hawl mewn cyfarfod cyffredinol i newid, ychwanegu at neu ddiddymu'r is-ddeddfau.
 - (4) Rhaid i'r Cyfarwyddwyr fabwysiadu dulliau y tybiant sy'n ddigonol i dynnu sylw'r aelodau i reolau ac is-ddeddfau'r Elusen.
 - (5) Bydd pob aelod yn rhwymedig i reolau ac is-ddeddfau'r Elusen. Ni fydd unrhyw reol neu is-ddeddf yn anghyson â, neu yn effeithio neu ddiddymu unrhyw beth a gynhwyswyd yn y Memorandwm neu'r Erthyglau.